Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Absenoldeb oherwydd salwch y GIG: Gorffennaf i Fedi 2020

Data ar gyfraddau absenoldeb salwch y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG ar gyfer Gorffennaf i Fedi 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Chwefror 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Chwefror 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

1. Prif bwyntiau

2. Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch

3. Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl sefydliad y GIG

4. Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl grŵp staff

5. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

6. Manylion cyswllt

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno gwybodaeth am absenoldeb oherwydd salwch staff yn y GIG yng Nghymru. Dangosir gwybodaeth newydd ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2020, sy'n cynnwys haf cyntaf y pandemig coronafeirws. Mae data ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin 2020 wedi'i ddiwygio.

Mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws (COVID-19) presennol, mae gwybodaeth reoli ychwanegol a mwy amserol yn cael ei chasglu ar absenoldeb oherwydd salwch. Nid yw'n cael ei chasglu ar yr un sail â'r hyn a gyhoeddwyd yn y datganiad chwarterol hwn, ac felly bydd y ffigurau'n wahanol.

Mae'r wybodaeth reoli yn awgrymu bod cyfartaledd dyddiol o tua 2,650 (2.7%) o staff yn hunanynysu dros y chwarter yn dod i ben 30 Medi 2020, gyda'r ffigurau yn lleihau pob mis i gyfartaledd o dan 2,000 yn ystod mis Medi. Mae'n debygol mai gwarchod yn dod i ben am y tro yng nghanol mis Awst yw achos y gostyngiad hwn gan fod y rhai sy'n gwarchod yn cael eu cynnwys yn y cyfrif hunanynysu. Bydd rhai o'r staff hyn wedi bod yn gweithio gartref. Cyhoeddir gwybodaeth ar **coronafeirws a gweithgarwch a chapasiti'r GIG** mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

diweddariad wythnosol.

Mae staff eithriadol o agored i niwed yn glinigol ar y rhestr gwarchod, ac felly nad ydynt yn y gwaith oherwydd hyn, yn cael eu cynnwys yn y cyfrif hunanynysu. Yn yr ystadegau swyddogol hyn, nid yw staff y GIG sy'n hunanynysu neu'n gwarchod yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n sâl, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau absenoldeb oherwydd salwch chwarterol hyn. Dylid parhau i ystyried yr ystadegau swyddogol yn ffynhonnell awdurdodol data ar absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yng Nghymru.

Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Cyhoeddir y data sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn ar **StatsCymru**.


# 1. Prif bwyntiau

- Roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn 5.1%, i lawr 0.3 pwynt canran o gymharu â'r chwarter yn dod i ben Medi 2019.
- Yn dilyn gostyngiad graddol yn ystod 2015 i 2017, mae'r cyfartaledd wedi bod yn cynyddu ac roedd yn 5.9% dros y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn y chwarter Ebrill i Fehefin 2020 yn ystod y pandemig COVID-19.
- Bwrdd iechyd lleol Bae Abertawe oedd â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf, 6.2%.
- Awdurdod Iechyd Arbennig Addysg a Gwella Iechyd Cymru oedd â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf, 1.2%.
- Y grŵp staff â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf oedd Cynorthwywyr a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, 7.3%.
- Y grŵp staff â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf oedd staff Meddygol a Deintyddol, 1.4%.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 2. Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch

**Siart 1: Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yng Nghymru, fesul mis, Medi 2015 i Medi 2020**




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae absenoldeb oherwydd salwch yn dangos amrywiad tymhorol eang drwy gydol y flwyddyn gyda'r gyfradd yn is yn yr haf ac yn uwch yn y gaeaf. Er mwyn darparu gwybodaeth gliriach am newidiadau hirdymor i gyfradd absenoldeb oherwydd salwch dangosir cyfartaledd symudol 12 mis yn Siart 1. Mae'r siart yn dangos bod y cyfartaledd symudol 12 mis wedi lleihau ychydig yn y misoedd diwethaf (yn dilyn uchafbwynt o 6.0% yn y 12 mis yn diweddu Mehefin 2020) gyda'r cyfartaledd am y 12 mis yn diweddu Medi 2020 yn 5.9%.

Mae'r siart hefyd yn dangos mai cyfradd absenoldeb oherwydd salwch mis Ebrill 2020 yw'r gyfradd fisol uchaf a gofnodwyd (7.5%). O ystyried yr amseriad mae hyn yn fwy na thebyg oherwydd COVID-19. Nid yw staff y GIG sy'n hunanynysu, sy'n cynnwys staff sy'n gwarchod, yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n sâl ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn. Gellir dod o hyd i gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch misol yn ôl **sefydliad** a **grŵp staff** ar


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 3. Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl sefydliad y GIG

**Siart 2: Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yn ôl sefydliad, chwarter yn diweddu 30 Medi 2020 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol**




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Bwrdd iechyd lleol Bae Abertawe oedd a'r gyfradd oherwydd salwch uchaf (6.2%) o holl sefydliadau'r GIG y chwarter yma, gyda'r gyfradd isaf yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (1.2%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.


Bae Abertawe oedd a’r gyfradd oherwydd salwch uchaf (6.2%) o’r holl fyrddau iechyd lleol (BILlau) ar gyfer y chwarter yn diweddu 30 Medi 2020, gyda’r gyfradd isaf ym Mhowys (4.4%).

Roedd y gyfradd oherwydd salwch yn is ym mhob ond dau o’r un ar ddeg sefydliad yn y chwarter Gorffennaf - Medi 2020 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Yr eithriadau oedd BILI Bae Abertawe lle'r oedd y gyfradd yn uwch; ac arhosodd y gyfradd yr un peth ym Mhowys.

Mae data ar gyfer pob sefydliad ar gael ar **StatsCymru**.

## 4. Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl grŵp staff

**Siart 3: Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG, yn ôl grŵp staff: chwarter yn diweddu 30 Medi 2020 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol**




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

O’r chwe grŵp staff, Cynorthwywyr a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd oedd â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf y chwarter yma (7.3%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Staff Meddygol a Deintyddol oedd â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf y chwarter yma (1.4%) fel sydd wedi bod yn wir ers dechrau casglu data yn 2009.

Roedd y gyfradd oherwydd salwch yn is ym mhob grŵp staff yn y chwarter Gorffennaf i Medi 2020 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Mae data ar gyfer pob grŵp staff ar gael ar **StatsCymru**.

# 5. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad ansawdd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Diben y nodau yw creu Cymru sy’n fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus, a diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ('dangosyddion cenedlaethol') y mae’n rhaid eu defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth ar y dangosyddion, ynghyd â disgrifiad o bob un o’r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd gyfrannu at y dangosyddion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cenedlaethol a gellir eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer llunio asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol.

### Diweddariad nesaf

12 Mai 2021

## 6. Manylion cyswllt

Ystadegydd: Bethan Sherwood
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 6735
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 40/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Absenoldeb oherwydd salwch y GIG: Gorffennaf i Fedi 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-gorffennaf-i-fedi-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.